



# Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin

## Polisi Defnydd Cymraeg Anffurfiol

**Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol: 28 Mawrth 2019**

Llofnod y Cadeirydd: \_\_\_\_\_

**Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol: 26 Mawrth 2020**

Llofnod y Cadeirydd: \_\_\_\_\_

**Dyddiad yr adolygwyd gan y Corff Llywodraethol:**

Llofnod y Cadeirydd: \_\_\_\_\_

# Polisi Defnydd Cymraeg Anffurfiol

## Cyflwyniad

Iaith anffurfiol yw'r iaith a ddefnyddir gan ddisgyblion yr ysgol o gwmpas y coridorau pan nad ydynt mewn gwersi. Bwriad y polisi hwn yw creu fframwaith ysgol gyfan er mwyn sicrhau perchnogaeth ysgol gyfan.

Cynhwysa'r fframwaith y camau gweithredu canlynol:

1. Ymchwil cefndirol – datblygu gonestrwydd ieithyddol
2. Llunio egwyddorion iaith – mabwysiadu cylch cefnogi iaith
3. Sefydlu fframwaith ysgol gyfan a gweithredu
4. Mesur cynnydd.

### 1. Ymchwil cefndirol

Gwnaethpwyd ymchwil gefndirol fanwl iawn gyda chymorth cwmni Trywydd a'r Dirprwy Bennaeth. Yn dilyn hynny, cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Uwch Dîm Arwain, staff a disgyblion i benderfynu ar gamau gweithredu. Mae datblygu gonestrwydd ieithyddol mewn ysgol – ymhlith holl aelodau staff a disgyblion – yn hanfodol bwysig. Oni bai bod holl aelodau cymuned yr ysgol yn onest am eu harferion iaith a'u hagweddau at yr iaith, ni fydd cynnydd o ran cefnogi defnydd iaith. Man cychwyn y broses ymchwil hon oedd sefydlu gonestrwydd ieithyddol.

### 2. Llunio egwyddorion iaith

Penderfynwyd ar yr egwyddorion canlynol:

- Penodi cyd-lynydd
- Cynnwys pawb yn y penderfyniadau
- Bod yn onest
- Annog defnydd pob aelod o staff
- Creu fforwm staff
- Creu fforwm disgyblion
- Creu cynllun gweithredu pendant

### 3. Sefydlu fframwaith ysgol gyfan

Penderfynwyd sefydlu fframwaith ysgol gyfan. Penderfynwyd ar frawddegau perthnasol i'w cynnwys yn: Llawlyfr yr ysgol, Llawlyfr Dewisiadau, Llawlyfr y Chweched, Cytundeb ysgol-cartref, Trefnydd Personol.

Dyma'r paragraff yn Llawlyfr yr ysgol:

#### Yr iaith Gymraeg

Cymraeg yw iaith swyddogol yr ysgol ar gyfer gweithgareddau allgyrsiol a'r mwyafrif helaeth o wersi academaidd. Mae'r ysgol yn falch o'i hethos Cymraeg ac yn gweithredu i sicrhau fod hyn yn cael ei gynnal ar gyfer pob carfan newydd o ddisgyblion. Mae'n orfodol i ddisgyblion sydd yn dewis mynychu'r ysgol siarad Cymraeg o gwmpas yr ysgol mewn gweithgareddau allgyrsiol ac mewn gwersi sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. Gofynnir i rieni gefnogi'r ysgol yn hyn o beth trwy wneud eu gorau glas i annog eu plant i siarad Cymraeg, a pharchu Cymreictod yr ysgol.

Penderfynwyd ar y canlynol i'w rhoi yn y Trefnydd Personol:

**Annog defnydd y Gymraeg**

*Cymraeg yw iaith cyfathrebu ysgol Bro Myrddin. Disgwylir i chi ar bob achlysur i siarad Cymraeg yn y gwersi perthnasol ac yn gymdeithasol o gwmpas yr ysgol. Fe fydd yr ysgol yn dilyn y camau gweithredu isod er mwyn annog eich defnydd o'r Gymraeg.*

*Camau gweithredu.*

*Cam 1: Sgwrs anffurfiol i drafod pwysigrwydd y defnydd o iaith*

*Cam 2: Rhybudd cyntaf ar lafar*

*Cam 3: Os nad oes gwelliant, cofnodi'r ail rybudd yn y trefnydd personol. Y tiwtor dosbarth/ athro yn cynnal trafodaeth wrth gofnodi yn y trefnydd personol.*

*Cam 4: Yn dilyn dau sylw yn y trefnydd personol – cyfarfod gyda'r pennaeth blwyddyn.*

*Cam 5: Yn dilyn cyfnod o fonitro, os gwelir bod rhagor o sylwadau yn y trefnydd personol, y Pennaeth Blwyddyn yn cysylltu gyda'r rhieni i drafod egwyddorion yr ysgol.*

*Cam 6: Os yw'r ysgol yn dal yn poeni am eich defnydd iaith, fe fydd y tîm rheoli yn cysylltu gyda'ch rhieni.*

Nodir y canlynol:

- Bydd angen cefnogaeth pob aelod o staff os yw'r cynllun i lwyddo.
- Angen hysbysu pawb o'r staff o'i dyletswydd at y Gymraeg a rôl pob unigolyn yn y broses.
- Angen i adrannau i drafod iaith a chefnidir y wlad a'r iaith yn eu cynlluniau gwaith.

Trefnir sesiynau seicoleg iaith gan eu bod yn cynnig ffordd newydd i ddisgyblion ac athrawon i archwilio eu lefelau balchder at iaith, eu defnydd iaith, eu disgwyliadau ieithyddol a'u gobeithion ar gyfer y Gymraeg ar gyfer eu hunain a'u teuluoedd yn y dyfodol.

Yn y sesiynau seicoleg iaith drwy'r gwersi ABCh cynnigir modd i fedru trafod gorffennol, presennol a dyfodol ieithyddol pawb fel unigolion; rhywbeth na wnaethpwyd erioed yn ystod gyrfa disgyblion yn y gyfundrefn addysg Gymraeg hyd yma.

#### **4. Mesur cynnydd**

Bydd holiaduron yn cael eu cynhyrchu er mwyn mesur cynnydd y polisi.

**Cynlluniau i'r dyfodol:**

- Cynnal cyrsiau gloywi iaith i staff sydd am dderbyn cymorth.
- Creu rhagor o glybiau gyda chymorth y chweched
- Creu posteri newydd hybu'r defnydd o'r iaith
- Ail wampio cynlluniau ABCh i gynnwys yr iaith fel thema trawsgwricwlaidd
- Cynnal gweithgareddau allgyrsiol amrywiol i hybu'r defnydd
- Sicrhau bod y defnydd o iaith yn cael ei drafod gyda'r cyngor ysgol
- Daparu holiadur i grwpiau targed a blynyddoedd arbennig.